

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



YSGOL I.D. HOOSON

Ebrill 16eg, 2021

Annwyl Riant / Warcheidwad

Etholiad Rhiant-lywodraethwr - Cais am Enwebiad

Mae 1 swydd wag wedi codi i riant-lywodraethwr wasanaethu ar gorff llywodraethu ein hysgol. Rydym yn awyddus i annog rhieni i ystyried cymryd y rôl hon.

Cyn i chi benderfynu enwebu rhywun, neu yn wir chi eich hun, efallai y byddwch eisiau gwybod mwy am beth y mae'r rôl yn ei chynnwys. Mae rôl y rhiant-lywodraethwr a'r rheolau sy'n llywodraethu eich cymhwyster i sefyll mewn etholiad wedi'u hargraffu dros y dudalen; efallai y byddwch hefyd am gysylltu â'r Pennaeth i drafod y rôl yn fwy manwl.

Gwahoddir enwebiadau gan rieni am y swydd wag hon ac amgaeaf ffurflen enwebu sydd wedi'i pharatoi ar gyfer y diben hwn. Os hoffech enwebu unrhyw riant, neu enwebu eich hun, dylech drefnu bod y ffurflen yn cael ei llenwi i gyd a'i dychwelyd ataf erbyn dim hwyrach na **3.15 y.p ar Ddydd Gwener, Ebrill 23ain, 2021**. Bydd enwebiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad ac amser hwn yn annilys. Rhaid i enwebai ddatgan ar y ffurflen ei pharodrwydd i sefyll mewn etholiad. Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i gyflwyno datganiad personol byr (dim mwy na 100 gair).

Os oes mwy o enwebiadau na seddau gwag, yna bydd pleidlais yn cael ei chynnal. Bydd papurau pleidleisio yn cael eu hanfon ar **Ddydd Llun, Ebrill 26ain, 2021** a rhaid eu dychwelyd erbyn **3.15 y.p. ar Ddydd Mawrth, Mai 4ydd, 2021** fan bellaf. Ni fydd papurau pleidleisio a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu cyfrif. Bydd papurau pleidleisio yn cael eu cyfrif ar **Ddydd Iau, Mai 6ed, 2021 am 10 o'r gloch**.

Mae cyfnod swydd rhiant-lywodraethwr yn bedair blynedd o ddyddiad y penodiad. Nid yw rhiant-lywodraethwr yn cael ei wahardd rhag parhau yn y swydd pe bai ei b/phlentyn yn gadael yr ysgol cyn diwedd y cyfnod o bedair blynedd.

Yn ddiffuant,

Rhodri Jones

Pennaeth

Swyddogaeth Llywodraethwr Ysgol

Mae tua 22,200 o lywodraethwyr ysgol yng Nghymru. Maent yn rhoi eu hamser, eu sgiliau a'u harbenigedd yn wirfoddol, i helpu eu hysgolion i roi'r addysg orau bosibl i'w plant.

Mae cyrff llywodraethu yn atebol am gyfeiriad strategol eu hysgol ac am ansawdd yr addysg a ddarperir.

Pam dod yn Llywodraethwr?

- I wneud cyfraniad pwysig i addysg trwy gefnogi cymuned yr ysgol, ei staff a'r disgyblion a helpu i godi safonau addysg
- I brofi cyfleoedd gwerth chweil a heriol
- I helpu i ddatblygu eich sgiliau presennol a hefyd i ddysgu rhai newydd
- I gyfarfod a gweithio â phobl newydd
- I ennill ymwybyddiaeth o'r system addysg

Mae Llywodraethwr yn wirfoddolwr sydd:

- â diddordeb mewn addysg;
- yn cynrychioli rhai sydd â diddordeb allweddol yn yr ysgol;
- yn rhan o dîm sy'n derbyn cyfrifoldeb am bopeth y mae ysgol yn ei wneud;
- ag amser i ymrwymo i gyfarfodydd ac achlysuron eraill;
- yn barod i ddysgu;
- yn gallu gweithredu fel ffrind beirniadol sy'n cefnogi'r ysgol, ond hefyd yn herio ac yn gofyn cwestiynau am sut y mae'r ysgol yn gweithio a'r safonau y mae'n ei chyflawni;
- gweithredu fel dolen gyswllt rhwng rhieni, y gymuned leol, yr Awdurdod Lleol a'r ysgol.

Tair rôl allweddol y Corff Llywodraethu

- 1 - Darparu safbwynt strategol
- 2 - Gweithredu fel cyfaill beirniadol
- 3 - Sicrhau atebolrwydd

Cymorth a Hyfforddiant

I lywodraethwyr gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac i safon uchel mae angen iddynt gael eu hyfforddi'n briodol. Mae'n rhaid i lywodraethwr newydd fynd i hyfforddiant Cyflwyniad Llywodraethwyr a Deall Data Ysgolion o fewn 12 mis o gael eu penodi.

Mae ymrwymiad i ddatblygiad llywodraethwyr yn agwedd bwysig ar fod yn gorff llywodraethu effeithiol, ond nid yw hyfforddiant yn dod i ben yn y cam cyflwyno. Mae yna nifer o gyrsiau hyfforddiant ychwanegol ar gael, a ddarperir gan Awdurdodau Lleol, i gynorthwyo pob llywodraethwr i ennill y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i lywodraethu eu hysgol yn effeithiol.

CYMHWYSEDD

Diffiniad o riant-lywodraethwr etholedig:

Diffinnir riant-lywodraethwr etholedig fel "person a etholir yn aelod o gorff llywodraethu ysgol gan rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ac sy'n riant o'r fath ar yr adeg y caiff ei h/ethol". Bydd rhieni-lywodraethwyr yn dal y swydd am gyfnod o bedair blynedd, yn amodol ar ymddiswyddiad neu waharddiad. Mewn rhai amgylchiadau, gall plentyn neu berson ifanc gael mwy na dau 'riant' neu bobl â chyfrifoldeb riant ac maent i gyd â'r hawl i sefyll fel llywodraethwyr, neu i bleidleisio, mae enghreifftiau yn cynnwys rhieni maeth tymor hir, gwarcheidwaid cyfreithiol a gorchmynion preswyllo.

Gwaharddiad - perthnasol i bob Llywodraethwr:

Mae person yn cael ei wahardd rhag bod yn llywodraethwr ysgol os:

1. byddai'r person, ar ddyddiad ei benodiad, yn aelod o gyrff llywodraethu mwy na dwy ysgol.
 2. yw'r person hwnnw yn gwrthod cais gan y Corff Llywodraethu i wneud cais am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
 3. yw'r person hwnnw wedi'i ddyfarnu'n fethdalwr neu os dyfarnwyd atafaeliad ar ei ystâd ac (yn y naill achos neu'r llall) nad yw ef / hi wedi cael ei r/rhyddhau ac nad yw'r gorchmyn methdaliad wedi'i ddirymu neu ei ddadwneud. Bod y person hwnnw wedi gwneud cyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwy, neu wedi rhoi gweithred ymddiried ar eu cyfer, ac nad yw wedi'i r/rhyddhau mewn perthynas ag ef.
 4. yw'r person hwnnw wedi'i wahardd rhag gwasanaethu fel Cyfarwyddwr Cwmni neu â gorchmyn wedi'i wneud o dan Adran 429 (2) (b) o Ddeddf Ansofedd 1986.
 5. yw'r person hwnnw wedi ei symud ymaith o swydd ymddiriedolwr elusen drwy orchymyn a wnaed gan y Comisiynwyr Elusennau neu'r Uchel Lys ar sail unrhyw gamymddwyn neu gamreoli wrth weinyddu'r Elusen.
 6. yw'r person hwnnw yn agored i gael ei gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
 - (a) (i) yw'r person hwnnw o fewn y 5 mlynedd diwethaf wedi'i gael yn euog o unrhyw drosedd ac wedi'i ddedfrydu i garchar (boed wedi'i ohirio ai peidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy heb yr opsiwn o ddirwy; neu
 - (ii) yw'r person hwnnw o fewn yr 20 mlynedd diwethaf wedi'i gael yn euog o unrhyw drosedd ac wedi'i ddedfrydu i garchar am gyfnod o fwy na $2\frac{1}{2}$ flynedd; neu
 - (iii) bod y person hwnnw ar unrhyw adeg wedi'i gael yn euog o unrhyw drosedd ac wedi'i ddedfrydu i garchar o 5 mlynedd neu fwy.
 - (b) yw'r person hwnnw o fewn y 5 mlynedd diwethaf wedi'i gael yn euog o dan Adran 547 Deddf Addysg 1996 (niwsans neu aflonyddwch ar safle addysgol) a ddigwyddodd ar safle'r ysgol ac wedi'i ddedfrydu i ddirwy.
7. yw'r person hwnnw'n llywodraethwr sydd wedi parhau i gael ei atal o'i swydd yn rhinwedd rheoliad 4 neu 5 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 am gyfnod di-dor o chwe mis, neu sydd eisoes wedi cael ei wahardd am fethu mynychu hyfforddiant angenrheidiol hyd nes ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant hwnnw.



YSGOL I.D. HOOSON



ENWEBU RHANT- LYWODRAETHWR

RWYF AM ENWEBU: _____
fel Rhiant-lywodraethwr Ysgol I.D. Hooson

Llofnod y Cynigydd: _____

Cyfeiriad: _____

Rhiant: _____ Blwyddyn: _____

Llofnod yr eilydd: : _____

Cyfeiriad: _____

Rhiant: _____ Blwyddyn: _____

CANIATÂD YR ENWEBAI

Rwyf i _____

sef Rhiant: _____ Blwyddyn _____
yn derbyn yr enwebiad.

Llofnodwyd: _____

Cyfeiriad: _____

HUNAN-ENWEBU

Rwyf i _____

sef Rhiant: _____ Blwyddyn _____
yn dymuno enwebu fy hun.

Llofnodwyd: _____

Cyfeiriad: _____

Mae datganiad personol byr yn
*amgaaedig / yn cael ei anfon ar wahân erbyn y dyddiad cau
(*dileu fel y bo'n briodol)

ENWEBIADAU I DDOD I LAW ERBYN: 3.15 y.p. Dydd Gwener, Ebrill 23ain, 2021

**DYLID RHOI ENWEBIADAU MEWN AMLLEN A'I RHOI YN Y BOCS PWRPASOL YNG
NGHYNTEDD YR YSGOL**